# PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 28 IONAWR 2021

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones (Cadeirydd), Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, John Pughe Roberts ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllïan Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol) Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg) ac Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**Eitem 5:** Anwen Davies (Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd wledig)
Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Sian Eirug (Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Eirwyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Cynghorydd Aled Lloyd Evans ddatgan buddiant ar eitem 5 gan ei fod yn aelod o bwyllgor Menter y Plu.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 12fed o Dachwedd, 2020 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN ARFOR

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac fel cam pellach ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chabinet Cyngor Gwynedd i fynegi cefnogaeth a dymuniadau'r pwyllgor i weld parhad cynllun Arfor wedi Mawrth 2021.**

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig ei hadroddiad yn diweddaru'r pwyllgor ar raglen Arfor. Eglurodd bod y rhaglen, a oedd â'r nod o hybu pobl i gychwyn a

thyfu eu busnesau yn lleol, yn dod i ben eleni. O ganlyniad, awgrymodd ei bod yn amserol tynnu sylw'r aelodau at y llwyddiannau a heriau a wynebwyd. Amlygodd y prif bwyntiau canlynol ystod ei chyflwyniad:-

- Nododd bod y rhaglen yn dod i ben fis Mawrth 2021 ac o ganlyniad y byddent yn treulio'r cyfnod nesaf yn sicrhau gwariant.
- Tynnodd sylw at bedwar prosiect llwyddiannus ddaeth yn sgil y rhaglen a'r cyllid. Yn gyntaf trafododd 'Ffiws', sef gofod gwneud ar y stryd fawr ym Mhorthmadog sy'n cynnig defnydd i fusnesau lleol o beiriannu megis argraffydd 3D.
- Cyfeiriodd at un achos o lwyddiant lle daeth busnes i ddefnyddio'r offer gan symud ymlaen i brynu offer o'r math eu hunain er mwyn datblygu eu busnes ymhellach.
- Soniodd am y prosiect 'Llwyddo'n Lleol' a ddigwyddodd ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn a oedd yn galw am syniadau busnes pobl ifanc lleol. Bwriad y prosiect oedd hyrwyddo'r syniad i bobl ifanc leol aros yng Ngwynedd gan ddangos iddynt y posibiliadau busnes sydd ar gael.
- Eglurodd bod diddordeb mawr wedi bod, gyda 10 unigolyn ifanc yn manteisio ar y cyfle. Wedi derbyn cymorth y prosiect, nododd bod oddeutu 80% wedi symud ymlaen i ddatblygu busnes.
- Rhoddodd drosolwg o 'Her Cymunedau Mentrus' sef her oedd yn ymateb i'r economi leol wrth greu swyddi. Ymhelaethodd ar rai o'r prosiectau fu'n elwa megis gofod gweithio yn Henblas a Menter y Plu.
- Pwysleisiodd y Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig mai nifer isel o fusnesau oedd wedi dewis gohirio eu cynlluniau oherwydd y cyfnod argyfwng Covid-19. Dengys hyn bod y busnesau wedi manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu busnesau er gwaethaf y cyfnod clo.
- Ar derfyn y rhaglen, mynegodd nad oedd yn sicr beth oedd y cam nesaf er mwyn sicrhau cyfleoedd i fwy o fusnesau ddatblygu yn lleol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:-

- Diolchwyd i'r Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig am yr adroddiad a nododd aelod ei brwdfrydedd dros Arfor.
- Mynegwyd siom nad oes parhad i'r rhaglen a chynigwyd bod angen pwyso ar y Llywodraeth yn wleidyddol i gefnogi parhad y rhaglen.
- Cytunwyd â'r cynnig a nodwyd y dylai'r pwyllgor hysbysu'r Cabinet o hyn.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau, nododd y Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig y pwyntiau isod:-

- Nodwyd y bydd modd datgan nifer y swyddi sydd wedi eu creu wedi i'r gwaith monitro gael ei gwblhau. Dywedodd mai'r flaenoriaeth gyntaf yw gweithio gyda'r busnesau i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio.
- Iaith yr hyfforddiant yw Cymraeg oni bai am y lleiafrif lle mae angen arbenigwyr o fewn meysydd penodol i hyfforddi.
- Atgoffwyd yr aelodau mai yn y tymor hir fydd buddiannau a chanlyniadau'r rhaglen yn cael eu hamlygu wrth i'r busnesau a dderbyniodd gymorth ehangu a datblygu.
- Dywedwyd bod cyfle i amlinellu beth fydd o fudd ar gyfer y cam nesaf yn y cynllun strategol – a'i rhaglen o'r un fath ynteu ymyraethau newydd.
- Bwriedir rhannu'r adroddiad interim gyda'r pwyllgor ar ôl ei chwblhau.

## 6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg ragymadrodd i'r adroddiad gan dynnu sylw at y cyfnod heriol a wynebodd yr ysgolion dros y cyfnodau clo. Mewn perthynas â'r Gymraeg mewn ysgolion, nododd bod heriau i ddod wrth i blant fethu ar fod yn rhan o awyrgylch Gymreig o'r ysgol a'r dosbarth.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg drosolwg o'r adroddiad blynyddol ar weithrediad yr adran. Ategodd mai ffocws yr adroddiad y tro hwn oedd ar weithdrefnau ac nid ar ddata.

Eglurodd bod cynnwys yr adroddiad yn cwmpasu'r dulliau a ddefnyddiwyd er mwyn ymdopi a'r newidiadau i addysg. Nododd bod y canolfannau iaith wedi wynebu heriau o barhau i gynnig profiad Cymreig i'r plant, fodd bynnag bachwyd ar y cyfle i arloesi drwy ddefnyddio sesiynau dysgu byw. Nododd yn ychwanegol bod y dulliau yma'n sicrhau bod y Gymraeg yn cyrraedd cartrefi'r dysgwyr er mwyn cynnal eu sgiliau iaith. Yn ogystal â chefnogi dysgwyr, nododd bod gan y Cynllun Strategaeth Gymraeg Mewn Addysg flaenoriaeth arall, sef i gefnogi gweithlu hyderus yn y Gymraeg.

Ategodd y Pennaeth Addysg bod sicrhau defnydd y Gymraeg yn un o brif heriau ysgolion wrth ddychwelyd gan nodi elfen o bryder bod hyn yn dirywio.

Parhaodd i drafod adolygiad thematig Estyn gan bwysleisio bod gweithdrefnau Gwynedd wedi eu cydnabod fel enghraifft o arfer dda. Cyfeiriodd yn uniongyrchol at ddulliau arloesol y canolfannau iaith o ddarparu addysg dros y cyfnod clo a bod hyn yn cael ei adnabod fel cryfder yn genedlaethol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Llongyfarchwyd yr adran ar y dulliau arloesol a ddefnyddir sy'n cael eu cydnabod fel arfer da, a phwysleisiwyd bod mwy o bwysau nag erioed ar yr iaith Gymraeg wrth i addysgu o bell barhau.
- Gofynnwyd a fydd camau i asesu'r niwed sydd wedi bod ar ddefnydd yr iaith Gymraeg ag i ddiwallu'r anghenion ychwanegol fydd angen wrth ddychwelyd i'r ysgol.
- Mynegwyd bod yr awdurdod yn amlwg wedi cymryd camau gwerthfawr i amddiffyn y Gymraeg mewn sefyllfa anodd.
- Atgoffwyd yr aelodau o'u rolau pwysig fel llywodraethwyr ysgol a'u dylanwad hwy ar ymdrechion i gynnal y Gymraeg o fewn y dosbarth a thu hwnt.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau uchod, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg :-

- Ei fod yn galonogol i glywed aelodau etholedig yn gwerthfawrogi a nodi'r gwaith amddiffyn iaith sydd yn digwydd mewn ysgolion a chanolfannau iaith yng Ngwynedd.
- Bwriedir sefydlu gwaelodlin i asesu'r sefyllfa iaith wedi i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i'r dosbarth.
- Ategodd y Pennaeth Addysg y gofynnwyd i'r Adran Addysg arwain ar ddarn o waith ymchwil trawsadrannol gyda phartneriaid megis GwE, Mudiad Meithrin, y Gwasanaeth Iechyd a chanolfannau Addysg Bellach. Ategodd mai bwriad y

gwaith fydd adnabod meysydd lle bo gagendor lles wedi ymddangos yn sgil Covid-19.

- Nododd mai un o'r camau nesaf fydd creu cynllun gweithredu i adnabod cerrig milltir pendant o beth i'w wneud i gryfhau'r sefyllfa.
- Ategodd y bydd deilliant y gwaith ymchwil yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor yma.
- Eglurodd bod nifer o ddulliau ar waith gan ysgolion er mwyn lleihau niwed i'r iaith Gymraeg. Rhoddodd enghreifftiau, gan gynnwys sicrhau bod y dechnoleg gan y dysgwyr i fanteisio ar ffrydiau gwersi byw a chynnwys arweiniad dwyieithog i rieni.

**7. CWYNION**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Iaith ei hadroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion ac enghreifftiau o lwyddiant ac arfer dda wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor. Amlygodd y prif bwyntiau canlynol yn ystod ei chyflwyniad:-

- Nododd bod yr amgylchiadau presennol wedi ei gwneud yn anodd cynnal rhai gwasanaethau megis cyfarfodydd a phwyllgorau rhithiol o ganlyniad i ddiffyg cyfleuster cyfieithu ar Teams. Fodd bynnag, erbyn hyn mae'r Cyngor yn defnyddio Zoom er mwyn darparu cyfieithu ar y pryd.
- Eglurodd bod y cyfnod presennol wedi hwyluso datblygiad sgiliau staff, er enghraifft gwelwyd cynnydd yn y niferoedd o staff sy'n dysgu Cymraeg a manteisio ar gyrsiau hyfforddiant.
- Rhoddodd gyfeiriad uniongyrchol at staff Byw'n Iach, sydd wedi bod yn anodd eu cyrraedd o ran datblygu sgiliau yn y gorffennol.
- ran cwynion am gydymffurfiaeth efo'r Safonau, nododd nad oedd cwynion ffurfiol i adrodd arnynt, ond bod ambell ymholiad wedi eu derbyn lle cafodd y mater ei ddatrys yn sydyn heb gyfeiriad pellach.
- ran polisi iaith, nododd bod dwy gŵyn wedi eu derbyn, un a gafodd ei datrys yn sydyn ac un ychydig yn fwy cymhleth oherwydd mai gwraidd y gwyn oedd argaeledd dewis iaith ar ddyfais dechnolegol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau ar yr adroddiad. Gan nad oedd amser yn caniatáu rhoi ystyriaeth lawn i'r adroddiad, gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r uned Iaith gydag unrhyw gwestiynau neu sylwadau pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11:35am

**CADEIRYDD**